Gweiddi

## Tasg 1

# Ffaith neu farn?

Darllenwch y darn ar y brif sgrin eto.

1. Ysgrifennwch **Ffaith** neu **Barn** wrth ochr y brawddegau yma.

a. Mae'r tŷ yma'n ardderchog.

b. Mae'r ardal o gwmpas y tŷ'n hardd iawn.

c. Mae'r tŷ ar ochr y B456.

ch. Mae'r tŷ mewn lleoliad cyfleus.

d. Mae'n dŷ gwyrdd.

dd. Mae'r ffenestri'n fawr.

e. Dw i'n meddwl bod paneli solar yn syniad ardderchog.

f. Byddai'r tŷ'n well petai gardd fawr tu allan.

ff. Mae'r tŷ'n cael dŵr o ffynnon yn yr ardal.

g. Mae'r borfa / glaswellt ar y to'n edrych yn ofnadwy.

ng. Mae ailgylchu defnyddiau'n hynod o bwysig heddiw.

h. Mae'r pris yn rhy uchel o lawer.

2. Beth yw'ch barn chi am y tŷ hwn? Rhowch ddigon o resymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

3. Petaech chi'n byw yn y tŷ, beth hoffech chi ei newid amdano. Rhowch ddigon o resymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.